

Y DINESYDD

RHIF. 3 MEHEFIN 1973

'FANDALIAETH SWYDDOGOL'

*Llythyr gan
Saunders Lewis*

Y mae'n dda gennyf anfon fy llongyfarchion i'r Dinesydd newydd. Fe all fod yn gylchgrawn pwysig ac yn organ i uno'r Cymry Cymraeg yn y brifddinas a'i chyffiniau. Y mae erthygl Mr. Vaughan Hughes yn y rhifyn cyntaf yma yn dangos yr angen am gydweithrediad er amddiffyn y gymdeithas Gymraeg yn y ddinas; y mae'r capeli Cymraeg hyn yn rhan bwysig o hanes Cymru. Peth pur enbyd yw dinistrio capel Ebeneser. Ni ddylid cytuno i hynny heb ystyriaeth ddwys. Boed i'r Dinesydd hoedl a nerth i atal pob fandaliaeth swyddogol.

Saunders Lewis

J. C. Griffith-Jones

Fe ymddangosodd "Y Dinesydd" yn rhy hwyr i'r patriarch o blith newyddiadurwyr Cymraeg Caerdydd gael cyfle i basio barn arno. Oherwydd bu farw J. C. Griffith-Jones yn ei gartref yn North Road ac yntau yn 77 mlwydd oed. 'Roedd gyda'r olaf o genhedlaeth a fu'n asgwrn cefn i'r wasg yng Nghymru pan oedd bri ar niferoedd o bapurau Cymraeg eu hiaith. Ond er mai "dyn papur newydd" oedd o, ei lais cyfoethog ar raglenni newyddion radio a gofir yn bennaf gan genedlaethau o Gymry.

Hannai o Benisarwaun Sir Gaernarfon, yr hynaf o dri mab i deulu a symudodd yn gynnar i ardal Dolgellau. Yn ysgol ramadeg y dref honno yr addysgwyd "Griff" a phan ddaeth y Rhyfel Mawr bu'n Gapten gyda'r Fiwsiliwyr Brenhinol Cymreig. Ar derfyn y Rhyfel y cychwynodd ei yrfa newyddiadurrol gyda'r Western Mail a gweithiodd hefyd fel cynrychiolydd Cymreig i'r hen News Chronicle. Cyfranodd golofn o feirniadaeth radio i'r Western Mail ac ef hefyd oedd awdur colofn amaethyddol y papur a ymddangosai dan yr enw John Field.

Bu'n weithgar am flynyddoedd gyda'r ffermwyr ifanc ac 'roedd yn eisteddfodwr brwd. Ond fel un o arloeswyr newyddiaduriaeth radio yng Nghymru y cofir amdano bennaf.

Roedd ei lais cyfoethog a'i ymdriniaeth o amryfal bynciau wedi uniaethu ei enw yn gynnar a chyfrwng tonfeddi'r awyr. Bydd newyddiaduriaeth yng Nghymru yn dlotach o'i golli.

CADEIRYDD CYNTAF

Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Emyr Currie Jones ar ei benodiad yn Gadeirydd cyntaf Cyngor Sir De Morgannwg. Bu'n cynrychioli Cathays ar Gyngor Dinas Caerdydd ers 1963 ac fe'i etholwyd i'r Cyngor newydd ym mis Ebrill.

Magwyd y Cynghorydd yn nhref Caernarfon. Gan fod ei dad yn aelod o'r Cyngor Sir fe gafodd flas cynnar ar weithgareddau llywodraeth leol. "Roedd yna Agendas ar y bwrdd broadcast gartre" meddai.

Ar ôl darllen y Gyfraith yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, bu'n Erlynydd gyda Chyngor Dinas Caerdydd am bum mlynedd cyn ymgymeryd â phractis preifat yn y dref.

Fe ddaw y Cyngor newydd i rym swyddogol ar Ebrill iaf 1974 ac wrth ddiolch iddo am ei wasanaeth a'i gyfraniad i fywyd Caerdydd dymunwn iddo rwydd hynt a llwyddiant yn ei swydd newydd bwysig.



LLYFRGELL GYMRAEG GWAELOD Y GARTH

Mentr rhieni di Gymraeg

Mae rhieni 95% o blant Gwaelod y Garth yn ddi Gymraeg, ac yn naturiol ddigon does 'na ddim llyfrau Cymraeg ar eu haelwydydd. Felly yn ystod y gaeaf, fe drefnodd Mrs. Ann Roberts, Radyr—sy'n edrych ar ol ffrwd Gymraeg gynyddol ysgol gynradd Gwaelod y Garth—arddangosfa o lyfrau Cymraeg i blant yn Neuadd y pentref. Ac fe roes Siop y Triban, Caerdydd, eu cymorth iddi.

Pan welodd y rhieni y cynnyrch toreithiol, roedd gofid arnyn nhw na fedrent fyth fforddio yn unigol i brynu pob llyfr i'w plant. Ond doedd dim torri calon i fod—dyma nhw'n mynd ati ar-y-cyd i gychwyn llyfrgell bentre i'w plant, ac un neu ddau gopi o bob llyfr Cymraeg yn y llyfrgell honno. Trwy'r gaeaf, gyda nosweithiau coffi a nosweithiau cymdeithasol (y tâl i fynd mewn—llyfr yn lle pres), dyma'n ara' gasglu digon o ddeunydd i ffurfio cnewyllyn llyfrgell. Sicrhawyd festri Bethlehem, capel Cymraeg y pentref, yn gartref i'r llyfrau (fel y byddai festrioedd capeli ers llawer dydd yn gwneud). Ac o'r diwedd, yn ddiweddar, fe wawriodd bore

agor y llyfrgell yn swyddogol gan Hywel Gwynfryn. Mae'r gymdeithas yn diolch o galon i Hywel am ei rodd hael o gyfrol gyntaf hanes Urdd Gobaith Cymru i'r llyfrgell ac i bawb sy wedi eu helpu a rhoddion tebyg. (Mae croeso i ragor o lyfrau o hyd wrth gwrs—ac fe fyddai Mrs. Ann Roberts yn yr ysgol gynradd yn falch o'u derbyn).

Bellach bob bore Gwener mae'r plant yn ymlwybro o'r ysgol i'r festri i fenthyg un llyfr am yr wythnos, sy wedi ei rwymo'n ofalus mewn P.V.C. gan y mamau—sydd hefyd wrth gwrs, yn llyfrgellwyr yn eu tro.

Arbrawf hynod o lwyddiannus—oes 'na ardaloedd eraill am ddilyn?

SOAR Y FRO

Yn rhifyn cyntaf "Y Dinesydd" cafwyd erthygl gan Vaughan Hughes dan y teitl "Chwalfa" yn sôn am y capeli Cymraeg a fydd yn diflannu o dan y cynllun i ddatblygu canol Caerdydd. Dywedir yr ail-gartrefir y capeli hyn wrth gwrs, ond eto, trist iawn yw gorfod ymadael â lleoliad gwreiddiol y capeli.

Hanesyn go wahanol sydd gennym ni yma yng Ngwenfô i'w adrodd. Pentref yn tyfu ydyw Gwenfô a thai newydd yn cael eu codi yma o hyd. Mae'r pentref gwreiddiol yn hen iawn ac y mae'r eglwys bresennol yn mynd yn ôl i'r ail ganrif ar bymtheg. Yn 1834 agorwyd capel Soar gan y Methodistiaid Calfinaidd a chynhaliwyd gwasanaethau ynddo'n ddi-fwlch tan ryw chwe blynedd yn ôl, pan gaewyd ef oherwydd diffyg cefnogaeth. Tua dechrau'r ganrif trodd Soar yn Zoar a daeth Saesneg yn brif iaith yr achos. Dywed rhai o drigolion hynaf y pentref wrthyf y clywid peth Cymraeg o hyd gan y pregethwyr a ddeuai i wasanaethu yno, yn arbennig felly mewn cyfarfodydd diolchgarwch. Ar un adeg, bu'r capel yn cynnal gweinidog ond yn ystod y blynyddoedd cyn ei gau gofalydd amdano gan y Parchedig J. H. Hawkins, gweinidog Sain Nicolas.

Angen am gapel

Pan ddaethon ni i fyw yma roedd nifer o Gymry wedi ymsefydlu yng Ngwenfô a'r cylch ac wrth eu cyfarfod a dod i'w hadnabod, fe ddechreuwyd siarad am yr angen am gapel Cymraeg yn y rhan hon o Fro Morgannwg. Gwelsom fod dau gapel wedi'u cau yn y cyffiniau—un ar Dwyn yr Odyn a'r llall yng Ngwenfô. Yn anffodus roedd yr adeilad ar Dwyn yr Odyn wedi disgyn i'w bwl ac wedi ei droi'n storws a garej. Ond yr oedd yr un yng Ngwenfô mewn cyflwr da dros ben a theimlem y byddai'n beth gwych iawn pe gallem gael defnydd yr adeilad hwn i godi eglwys Gymraeg yn y pentref. Yn ffodus roedd gwres trydan wedi ei roi yn y capel ychydig amser cyn ei gau.

Cynhaliwyd cyfarfod a phenderfynwyd ein bod yn gwneud cais i'r Henaduriaeth Saesneg i gael defnyddio'r capel. Etholwyd pwyllgor bychan i fynd ymlaen â'r bwriad, gyda Mr. Noel Williams yn Gadeirydd, Mr. Roy Thomas yn Drysorydd a Mrs. Islwyn Jones yn Ysgrifennydd. Trosglwyddwyd gweithredoedd Soar i'r Henaduriaeth Gymraeg a chawsom bob cydweithrediad gan y Parchedig Lodwig Jones, Heol-y-Crwys a'r Parchedig G. Bowen, Aberdâr. Pan aethom i mewn i'r capel am y tro cyntaf i gael golwg arno, prin y gellid agor y drws gan fod colofn drwchus o we pry' cop yn ein hwynebu, ond wedi awr neu ddwy o waith caled, roedd capel Cymraeg Cydenwadol Soar-y-Fro yn barod i'w ddefnyddio.

Gwasanaeth agoriadol

Ar nos Fawrth 24ain Hydref, 1972, cynhaliwyd y gwasanaeth agoriadol o dan ofal y Parchedig Lodwig

Jones. Dechreuodd yr Ysgol Sul ym mis Hydref gyda deg o blant ond erbyn hyn mae rhyw ddau ddwsin yn dod atom erbyn 10.30 a.m. bob bore Sul ac fe'u rhennir yn dri dosbarth dan ofal Mr. Noel Williams a Mr. a Mrs. Islwyn Jones. Unwaith y mis y cynhelir gwasanaeth a hynny am 2.30 p.m. ar y Sul cyntaf o bob mis. Bu gweinidogion yr ardal yn garedig dros ben tuag atom ac yn barod i ddod i bregethu i Soar-y-Fro. Yn wir, mae pob oedfa fel oedfa Cyrrdau Mawr! Dyma restr o'r pregethwyr sydd eisoes wedi bod gyda ni—y Parchedigion Lodwig Jones, Emllyn Jenkins Raymond Williams, Eifion Powell, Emrys Cleaver, Gwyn Eryl a Carey Garnon. Yn mis Mehefin nesaf fe fydd y Parchedig George Noakes, Eglwys Dewi Sant yn pregethu a mis Gorffennaf daw'r Parchedig Dafydd Evans, Minny Street, atom.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r cyfeillion hynny o gapeli eraill a ddaeth i chwyddo'r cynulliad yn ein cyfarfodydd cyntaf. Yn wir, mae rhai ohonynt yn dal i ddod yn rheolaidd. Mae croeso cynnes i unrhyw blentyn ddod atom i'r Ysgol Sul ac i bawb ymuno gyda ni yn y gwasanaethau misol. Ond os ydych am ddod, dewch yn gynnar, gan mai dim ond lle i gant o bobl sydd yn Soar-y-Fro!

ANN M. JONES

PRIFATHRO NEWYDD

Llongyfarchion i Eifion Thomas. Darlithydd mewn Addysg yng Ngholeg Addysg Cyncoed, ar ei apwyntiad yn brifathro Ysgol Uwchradd, Brynrefail, Sir Gaernarfon. 'Teg edrych tuag adref'—hen ddisgybl o'r ysgol yn tyfu i statws pennaeth.

Dymuniadau gorau i'r

Y DINESYDD

oddi wrth

MRI GRIFFITHS AC EVANS

Llythyrdy Cowbridge Road · Caerdydd

Galwch mewn am bapur, baco, losin neu gerdyn

Llythyrau at y Golygydd

ANGEN CANOLFAN

77 Melrose Ave.,
Penylan,
Caerdydd.
Mai 15ed, 1973.

Annwyl Syr,

Mae Clwb Rygbi Cymry Caerdydd yn rhoi'r cyfle i ieuencid y brif-ddinas i gymdeithasu a chwarae rygbi yn yr iaith Gymraeg. Oddiar y dechrau gweinyddwyd popeth yn Gymraeg. Er i ni ddechrau ar dir weddol sigledig mae'r Clwb erbyn nawr yn un o dimau cryfa y brif-ddinas.

Fel pob sefydliad arall mae arnom alwadau ariannol. Ond trwy gynnal ambell ddawns fan hyn a ffair sborion fan acw mae'r llyfrau wedi cadw yn byr iach. Ond wrth i ni gynyddu mae'r broblem o ganolfan wedi codi. Wrth ystyried y galwad am y fath le yng Nghaerdydd byddai dyfodol ariannol Canolfan y Clwb Rygbi yn ddiogel. Hoffwn fanteisio ar y cyfle yma yn y Dinesydd i ofyn i chi Gymry Caerdydd gyfrannu tuag at Gronfa Canolfan Clwb Rygbi Cymry Caerdydd. Byddai'ch cefnogaeth yn sicrhau bod yna le i chi a'ch ffrindiau i gwrdd. Fel y mai hi ar hyn o bryd mae'r Clwb yn cynnal dawnsfeydd, nosweithiau llawen, cystadleuthau a chyfarfodydd mewn cwts bach yn y 'Clive Arms'. Cymaint gwell fyddai i groesawu chi gyd i le teilwng a chyfforddus.

Os oes ganddoch ddi-ddordeb yn ein cefnogi yn yr ymdrech anfonwch air at naill ai Martyn Williams, 77 Melrose Ave., Penylan, neu Eifion Griffiths, Meadvale Road, St. Mellons, Caerdydd.

Cofion Gorau
Martyn Williams.

CERNOD OER?

Annwyl Olygydd,

Roedd yn dda cael archeb banc Gymraeg oddi wrthyf chi. Fe'i llenwais i hi a'i hanfon yn ôl i'r cyfeiriad a nodwyd. Ymhen rhai dyddiau, fe ddaeth yn ôl i mi o'm banc fy hun, a chyda hi, roedd cais, "Would you please translate the enclosed for us, please?" Mynd i lawr ar fyrder i'r banc gan obeithio cael gwaith rhan amser fel cyfieithydd answyddogol i'r banc. Dim lwc. Gofyn beth oedden nhw'n arfer wneud gyda llythyrau Cymraeg. "Well, there used to be a Welsh speaking cashier in Midlands next door, but now she's gone—" Dyna'r Gymraeg, felly, yn help i dynnu'r hen fanciau yma at ei gilydd. Gyda llaw, faint o ddarlennwyr y Dinesydd a welodd hysbyseb yn un o'n papurau "cenedlaethol" beth amser yn ôl gan westy yn nhueddau Pen-y-bont-ar-ogwr? Sôn oedd e am gernod oer—Edrychwch yn y Geiriadur Mawr am drosiad o cernod!

Pob hwyl i'r Dinesydd,

W. S. Jones

Muriau Mawr,
Rhoslan,
Cricieth.
Noson Ffair Pentymor
C'lamai 1973

Annwyl Gyfaill,

Yn ôl f'addewid dyma gyfraniad i'r Dinesydd. Os nad yw'n addas—Gwahaner y tair 'dalen, a rowlier (gan ddechrau o'r gornel isaf) yn glos ar hytraws i'r gornel chwith uchaf. Gwnewch hyn a'r tair tudalen. Chwilier am botyn pridd (hen bot Marmalèd Keillers) Rhowch y tri rhowlyn papur (a elwir bellach yn spilsen) ar eu pennau yn y pot, a gadawer yng nghornel y lle tân. Defnyddier fel bo'r galw i danio pibell neu sigaret.

Yn gywir iawn,
Guto Roberts

O.N.

Mae'n ddiddorol sylwi ar y gwahanol gymdeithasau sy'n cael eu ffurfio yma ac acw.

Sylwais yn rhifyn Mai o'r Dinesydd fod Cymdeithas Rhieni Bryntaf. Mae'n rhaid felly fod 'na Gymdeithes Rhieni Brwnt yn rhywle.

PRIODAS

Dydd Sadwrn, Mai 26ain, priodwyd Rhianon Davies a Gerald Murphy yng Nghapel yr Annibynwyr Bwlchycorn, Rhydargaeau Sir Gaerfyrddin. Merch o Rydargaeau yw Rhianon, sy'n Gynorthwywr-Cynhyrchedd gyda B.B.C. Cymru yng Nghaerdydd. Y mae Gerald yn enedigol o Gaerdydd, ac mae yntau hefyd yn gweithio gyda B.B.C. Cymru yng Nghaerdydd yn yr Adran Gynllunio. Gwasanaethwyd gan y Parchedig T. Eifion Jones.

CROESO I CAERDYDD

Ymhlith trigolion newydd Radyr y mae'r Parchedig a Mrs. Henry Evans, 34, Danybryn Avenue. Daethant yma rai wythnosau'n ôl o Benybont-ar-Ogwr i ymsefydlu y drws nesaf, o'r bron, i gartref eu mab, Yr Athro J. L. Evans, pennaeth Adran Athroniaeth Coleg y Brifysgol, Caerdydd. Bu'r ddau yn byw ar wahanol gyfnodau yn Liangadog, Pontycymmer, Llansamlet (Capel y Cwm) a Llandudoch, lle bu Mr. Evans yn weinidog gyda'r Hen Gorff. 'Does ond tua blwyddyn-a-hanner er pan beidiodd â phregethu, wedi iddo fod wrthi'n ddiwyd dros ddwy-flynedd-a-thrigain. Croesewir nhw'n gynnes i'n plith.

DISGLED I'R DYSGWYR

Mae disgled o goffi yn help mawr i ddysgu siarad Cymraeg. Mae Cymdeithas y Dysgwyr yn trefnu (*arrange*) nosweithiau coffi yn aml. Mae dysgwyr a Chymry Cymraeg yn gwahodd pobl i'w tai weithiau i siarad Cymraeg gyda phobl o ysgolion nos dros y ddinas. Ydych chi wedi bod mewn noson goffi? "O na" meddech "dydw i ddim yn gallu siarad yn ddigon da, ac fe fyddwn i yn eistedd yn y gornel drwy'r amser yn yfed coffi, edrych ar y wal, yfed mwy o goffi a dweud dim". Wel beth am fynd am noson—fe gewch wybod ble a phryd yn "Yr Agoriad".

Os ydych chi newydd ddechrau dysgu ac yn "swil" (shy) dysgwch hwn—*learn this and you will enjoy every minute of the coffee evening*. Ar ôl cyrraedd a chanu'r gloch O Noswaith Dda Mrs. Jones/Davies etc.

Your host will then probably take your coat and show you to the room where all the learners are gathered. A few "Diolch yn fawr" is advisable at this stage.

Ar ôl eistedd—trowch i siarad—turn to talk.

A sut ydy chi/Ah How are you? Da iawn diolch.

Ble rydych chi'n dysgu Cymraeg/Where are you learning Welsh?

Ateb:— yng Nghyncoed gyda Mr. William Williams.

Response:— O mae e'n athro da iawn/arlderchog. (An excellent teacher).

(the coffee and biscuits will now have arrived).

Response/Ymateb O diolch yn fawr.

Cwestiwn Ydych chi eisiau siwgr? Do you want sugar?

Ateb Nac ydw/Ydw diolch yn fawr. To your friend O mae'r coffi yma'n dda iawn. This coffee is very good, or Mae'r coffi yma yn ofnadwy/terrible (as the case may be).

Pam ydych chi eisiau dysgu? Why do you want to learn?

If you do not understand the long complicated answer given use—

O ie rydw i'n gweld—O yes I see.

Os dydych chi ddim yn deall—

If you don't understand anything during the evening Mae'n ddrwg

gen i ond dydw i ddim yn deall. I am sorry but I don't understand.

If you have exhausted your knowledge with your first friend—symudwch ymlaen/move on i'ch ffrind

nesa/to your next friend, and start all over again. Mae athrawon yn mynd i'r nosweithiau coffi hefyd

i'ch helpu chi i siarad. Rhaid bob amser siarad Cymraeg mewn noson goffi—You must speak Welsh all the time at the coffee evenings.

Yn olaf y mis yma, llongyfarchiadau mawr i ddau aelod o un o

ddosbarthiadau Llanishen. Ie Brian Blake—trysorydd Cymdeithas y Dysgwyr a Sian James—ysgrifenyddes y Gymdeithas—fe wnaethon nhw gyfarfod/meet yn y dosbarth ac mae nhw'n priodi/getting married ym mis Awst. Newyddion da iawn. Mae nhw'n mynd i fyw i Radyr—fe fydd pobl Radyr yn lwcus iawn o ennill dau Gymro Cymraeg gweithgar.

Ewch i'r nosweithiau coffi—siaradwch Gymraeg—prynwch yr Agoriad, a phwy a wyr efallai y gwnewch chi hefyd ddilyn esiampl Sian a Brian. Daliwch ati/Keep at it.

JOHN ALBERT EVANS

Y DOSBARTHIAU NOS YMA TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Dowch nawr Gymry!—at y ffôn neu i'r post ar unwaith at Mrs. Eirwen Davies, 41 Highfields, Llandaf, â'ch ceisiadau ac awgrymiadau am ddsbarthiadau nos yn y Gymraeg. Fe dderbyniodd hi un llythyr yn syth ar ôl i'r "Dinesydd" ola ymddangos, ac fe ddisgwyliodd doreth i ddilyn. Ond ddaeth dim. A fydd na neb i'w feio ond ni ein hunain—mae'r awdurdodau yn barod i helpu, ar unrhyw bwnc a fynnom. Dowch.

CYMRAES YN FRENHINES GLAMAI YN Y BARRI

Llongyfarchion i Eleri, merch ieuengaf Mr. a Mrs. Alwyn Evans, Y Barri, ar gael ei choroni yn Frenhines Glamai'r dre mewn seremoni fawreddog yn y Neuadd Goffa, nos Wener, Mai 18fed. Trefnir y seremoni, a'r gyngerdd o waith plant ysgolion yr ardal, yn flynyddol gan gangen y Barri o Gymdeithas Achub y Plant. Roedd y trefniadau eleni yng n'hofal Mrs. Rachel Williams, prifathrawes Ysgol Sant Ffrancis, ac fe draddododd y Frenhines Eleri ei haraith goroni yn Saesneg a Chymraeg. Hir oes a theyrnasiad hapus iddi!



Cystadleuwyr yn Mae Gen i Air, cwis wythnosol BBC Cymru. Yn eistedd, a'r chwith i'r dde Mr. John Williams, Radyr, a Mrs. B. Hughes, Caerffili, yn sefyll Mrs. Betty Jones, Castell Newydd Emllyn a Mrs. J. Bartlett o Gaerdydd (cewch fwy a hanes Mrs. Bartlett isod) a Mr. Alwyn Rees o Blackwood. Yn y darlun hefyd mae Glan Davies yr halwr a Lynne Davies sy'n ei gynorthwyo.

Tipyn o Gamp

Eisteddfodwraig frwd, cystadleuydd ar raglenni cwis, ymgeisydd am dystysgrif lefel 'A' (ar ôl hyfforddiant drwy'r post)—dyna rai o'r pethau y gellid eu dweud am Mrs. Josephine Bartlett.

Am y gweddill, dylid nodi mai Saesnes o Croydon yw hi ac mai Cymraeg yw ei thestun arholiad.


Sut y bu hi iddi ddewis dysgu Cymraeg yn y lle cynta? "Daeth Cymraes o Dreorci i'm cartref a fe'm swynwyd gan swm yr iaith. Penderfynais geisio dysgu er mwyn, yn arbennig, ddeall yr emynau gan fy mod yn ymddiddori mewn pethau crefyddol".

Dysgodd ei hun trwy gyfrwng "Teach Yourself Welsh" cyn ymuno â dosbarthiadau'r City Literary Institute. Erbyn hyn roedd yn gweithio yn y Swyddfa Gymreig yn Llundain ac yn 1972 symudodd i'r

Swyddfa yng Nghaerdydd. Un o'i gobeithion oedd dilyn cwrs lefel 'A' ac i wneud hynny daeth i gysylltiad â Mrs. Lilian Davies, Machynlleth. Ers hynny bu'r gwifrau ffôn a'r gwasanaeth post wrthi'n gyson yn cyfnewid gwersi a gwaith cartrefi Tybed ai dyma'r dysgwr cyntaf i baratoi ar gyfer lefel 'A' yn y dull hwn?

Os bydd llwyddiant iddi, ei gobaith nesa yw eistedd arholiad yr Orsedd y flwyddyn nesaf. Pob lwc iddi yn y dyfodol.

YSTAFELL FWYTA



Dewch i

Ni chewch gwpwrdd tridarn yma — ond fe gewch ddewis helaeth o gelfi bwyta gyda charped i'r llawr, llenni i'r ffenest a llestri i ddodi ar y bwrdd — i gyd gan y gwneuthurwyr gorau i greu rhaid gweld!

Dan Evans

Y Siop i bob aelod o'r teulu

Tel. Y Barri 4242



MAES Y PLANT

SŌN AM GAMERA

Huw Jenkins dynnodd y llun yna'r tro o'r blaen o'r tolldy yn Sain Ffagan. Ar hyn o bryd, mae e'n mynd o gwmpas Caerdydd i dynnu nifer o luniau o fannau diddorol i geisio'ch dal chi. Rwy'n atgynhyrchu un ohonyn nhw yma. Tybed a wyddoch chi ble mae e? Ar ôl ichi ddod i wybod, chwiliwch ychydig o'i hanes e. Ac os carech chi roi'r hanes i mi, croeso.

DRYLLIO'R COD—

Fe ddywedodd Sam Slic fod y cōd diwethaf yn rhy hawdd o lawer i chi. Os na lwyddoch chi i'w dorri fe, dyma sut y mae gwneud. Y neges i ddechrau!

OESN EBY ND YSGUD IMM EWNY SGOLD

Rhowch lythyren ola'r frawddeg (h.y. D) ar ddechrau'r frawddeg. Wedyn, rhowch lythyren ola pob gair ar ddechrau'r gair sy'n dilyn. A dyma chi'n cael:

Does neb yn dysgu dim mewn ysgol.



CŌD NEWYDD SBON—

NGWYP YR LGWÉS YM NFRÁS IE WCHYD

Un cliw. Mae'r frawddeg yn hen ddihareb. Cliw arall, rhywbeth yn canu bās ar y to!

Beth yw e?

Mae'r dyn sy'n ei wneud e'n ei werthu e!

Dyw'r dyn sy'n ei brynu fe mo'i eisie fe.

Dyw'r dyn sy'n ei gael e'n gwybod dim byd amdano fe!

Ar ôl i chi grafu'ch pen, edrychwch am yr ateb ar waelod y tudalen!

Peidiwch â cheisio dweud celwydd wrth Sam Slic. Mae'n gweld anwiredd filltir i fwrdd! Tybed a fedrwch chi wneud hynny?

Hen gloncen o wraig oedd Sara Jên. Roedd ganddi hi stori am rywun byth a hefyd. "Dyna drueni am Mrs. Lewis," medde hi. "Ond dyna fe, calon wan fu ganddi hi erioed!"

"Pam" medde Sam Slic gan dynnu'i bensil a'i lyfyr o'i boced. "Beth ddigwyddodd?"

"Dydd Sul diwetha oedd hi. Meddwl mynd i'r capel yn y bore, ond penderfynu mynd i'r ardd i orwedd yn yr haul. Peth cas, gorwedd yn yr haul. Dyma hi'n cysgu a dechre breuddwydio."

"Fe gafodd hi hen freuddwyd cas. Dyma hi'n dychmygu i bod hi'n cerdded i lawr Heol y Frenhines ar bnawn Sadwrn, ac fe wyddoch chi pa mor beryglus yw croesi Heol y Frenhines unrhyw amser. Beth bynnag, roedd hi'n mynd yn hamddenol heibio i Marks and Spencers pan welodd hi Lisi Ann yn cerdded yr ochr draw i'r ffordd. A dyma hi'n penderfynu croesi'r ffordd yn y fan a'r lle, heb edrych dim. Nawr, yn y freuddwyd, dyma gar mawr du'n gyrru fel cath i gythrel i lawr y ffordd, a phan welodd e Mrs. Lewis, roedd hi'n rhy hwyr. Fe wasgodd y gyrrwr, druan, bob brêc oedd gydag e a chodi braw mawr ar Mrs. Lewis. Digon o fraw i beri iddi hi ddeffro. A phan oedd hi'n deffro, dyma gar yn brecio reit yn ymyl y tŷ. Fe fu'r sŵn yn ddigon iddi hi. Fe farwodd yn y fan a'r lle, heb agor i phen wrth neb. Ond calon wan fu ganddi hi erioed!"

"Sara Jên, "medde Sam Slic. Rych chi'n gweud celwydd!"

Sut oedd e'n gwybod? Fe gewch chi'r ateb ar waelod y tudalen!



Ble mae hwn?

YCH CHI'N TEIMLO FEL CHWERTHIN

Dyn yn mynd i dop bys dybl decar, cael un cipolwg ac yn brysio lawr llawr.

"Dim yn ddiogel lan top," medde fe. "Pam?" medde'i gyfaill wrtho fe. "Dim gyrrwr!"

BOW WOW!

Un peth diflas mewn bywyd tre yw'r ffaith na fedrwch chi gadw llawer o anifeiliaid anwes. Mae plant y wlad yn fwy lwcus o lawer. Fe allan nhw gael poni neu ddwy, faint a fynnan nhw o gŵn a chathod, adar, cwningod—yn wir, popeth. Ond os caiff rhieni dinas eu ffordd, yr unig bethau maen nhw'n barod i blant eu cael yw pysgod aur. Mae'r rheiny'n ddigon didrafferth, yn mynd rownd a rownd mewn bowlen ar astell, ond does mo'r un blas ar gadw pysgodyn a chadw ci. Mae'n wir fod pysgodyn yn siglio'i gynffon i ryw raddau, ond dim ond am i fod e am ddianc oddi wrthyh chi. Rhaid cael ci i ysgwyd ei gynffon mewn croeso! Ac mae'n stori ni am ferch a lwyddodd i gael ci! Mae'n adrodd yr hanes ichi, fel y gellwch chitha, hefyd, gyda thipyn o lwc, boeni eich rhieni am gi. Elinor Gwynn! Chi piau'r llwyfan. Beth yw'r stori?

Anrheg o Gaerdydd

Roeddwn i wedi bod eisiau ci ers

amser maith, ac o'r diwedd, fe lwyddais i berswadio fy nhad a'm mam i brynu un i mi.

Felly, ar y 23 ain o Ragfyr, dyma'r teulu i gyd yn cychwyn i gartref y cŵn amddifad (yr R.S.P.C.A.) yn Heol Penarth. Cwt anferth oedd y lle, a chyn i ni roi troed allan o'r car, fe allem glywed cyfarth byddarol yn dod o'r tu mewn.

Wrth fynd drwy'r drysau, fe welem resi o gawelli yn llawn cŵn o bob math a maint. Roedd y lle yn weddol lân, ond roedd dipyn o arogl draw'n y pen pella. Roedd llawer o gŵn hoffus yno, ac yr oeddwn i mewn penbleth wrth ddewis pu'n anifail i'w gael.

O'r diwedd, fe gytunodd pawb ar gael ci bach du a gwyn a oedd yn gwneud ei orau glas i estyn ei bawen trwy'r barrau a'm llyfu. Fe ddaeth y ddynes a oedd yn gofalu am y cŵn atom gan ofyn pa gi yr hoffem gael. Fe bwyntiais at y ci bach hwn ac fe gododd y ddynes ef allan o'r cawell er mwyn i ni gael cyfle i'w weld yn iawn. Cymysgedd rhwng ci defaid a sbaniel ydoedd, ac roedd e wedi cael chwistrelliad gan filfeddyg yn barod. Fe dalais i amdano, punt roedd e'n costi. Ac fe es i adre gan feddwl mai dyna'r anrheg orau a gefais erioed. A dyma ni'n penderfynu ei alw'n "Gel"—byr am "Gelert", y ci ffyddlon. Mae Gel yn gi drygionus dros ben, yn malu llestri, ac yn palu tyllau yn yr ardd—ond stori arall yw honno!



A dyma ichi lun o Elinor gyda Gel! Welsoch chi bâr mwy hapus erioed?

Urdd Gobaith Cymru

Nofio Nawdd

Pwll Awyr Agored Llandaf, Caerdydd

**Nos Sadwrn, Mehefin 9, 1973
am 6 o'r gloch**



Ffurflenni oddi wrth

J. A. Evans
Ysgol Bryntâf
Gabalfa

Garwyn Davies
Ysgol Birchgrove
Caerdydd

Ateb:- ARCH

Ateb i broblem Sam Slic!

Os bu Mrs. Lewis farw heb ddweud gair wrth neb, sut y gwyddai Sara Jên ei bod hi wedi bod yn breuddwydio?

Cofiwch 'sgrifennu at-

W. J. Jones
46 Crystal Wood Road
Caerdydd

ENNILL CADAIR

Llongyfarchiadau i Elwyn Thomas, Cwrt yr Ala, 217 Pantbach Rd., Rhiwbeina ar ennill cadair Eisteddfod Myddfai. Mae wedi ennill nifer o gadeiriau drwy'r blynyddoedd, yn enwedig yn ei fro enedigol, sef Glangwili ger Caerfyrddin ac mae ei ffrindiau yn yr ardal yn dal i gofio amdano fel dipyn o gymeriad, actor, bardd a chymwynaswr. Erbyn hyn mae'n gweithio i Wasg y Brifysgol ar ôl cadw siop yn Rhiwbeina am ddeuddeng mlynedd, a chyn hynny'n trwytho ei hun ym myd llyfrau gyda Hughes a'i Fab a Spurrells. Braint yw i'r Dinesydd gael cyhoeddi ei delyneg fuddugol gan obeithio y bydd holl farddoniaeth Elwyn yn cael ei chyhoeddi rywryd gan rywun, ond efallai hwyrach nad yw ei gerddi'n ddigon 'tywyll' i'n harbenigwyr.

Y LLWYBR

'Ma nhw'n od o garedig 'ma
thenciw
Ac yn hynod o ffein chwarae teg,
Brecwast am wyth yn y bore
A phaned o goffi tua deg.

Y mab, ? mae'n byw nawr ym
Mryste
A'r ferch lan yn Llundain ers tro;
Do, bum yn ffodus i ddod 'ma
Er c'leted oedd gadael y fro.

'Rwyn dianc o'r lle 'ma yn amal
'Does neb yn fy ngweld i yn ffoi
'Rwyn aros i'r golau fynd allan
Ac yn siwr fod y drws wedi'i gloi.

Ac yna'r ôl gorffen fy mhader
A chau fy nau lygad yn dynn,
'Rwyn camu dros gamfa yr Hendre
A phalu ymlaen am y Bryn.

Daw oglau y mawndir i'm ffroenau
A chân yr ehedydd i'm clyw,
Bydd porffor y grug ar fy ngruddiau
Cyn cyrraedd gwastadedd Penrhiw.

Fe ddaw 'rhen gyfeillion yn heidiau
O'r Goitre, Bwlchbychan a'r Gors,
Pegi ag Ifan a Mali,
Gruffudd a Marged a Siors.

Fel yna hyd ganiad y ceiliog
Y byddaf yn rhodio yn rhydd;
Cwmpeini'r gymdeithas a
chwalwyd
Wna'r nos yn felysach na'r dydd.

A deffro'n f'ôl unwaith eto:
'Ma nhw'n hynod o ffein chwarae
teg.

Brecwast am wyth yn y bore
A phaned o goffi tua deg.

Rhydfelen

Y Deng Mlynedd Cyntaf

Prif amcan y gyfrol hon yn ôl y Prifathro Gwilym Humphreys 'yw gosod ar glawr ryw gymaint o wybodaeth ynglŷn â natur addysg ddwyieithog fel ag y'i cyflwynwyd yn Rhydfelen yn ystod y deng mlynedd cyntaf yn ei hanes. Ein prif amcan felly yw sbarduno rhieni, athrawon a phwyllgorau addysg i wasgu am fwy o ysgolion dwyieithog er mwyn sicrhau'r addysg lawnaf posibl i bobl ifanc Cymru. Nid hanes deng mlynedd yn yr ysgol a geir yn y gyfrol hon, er bod ymgais wedi ei gwneud i nodi'r prif gerrig milltir, ond yn hytrach rhoddi distylliad o athroniaeth ac agweddau ar yr ysgol fel ag y'u gwelir gan athrawon rhieni a disgyblion'.

Yn y gyfrol ceir arolwg dros y deng mlynedd cyntaf gan y Prifathro, a phennod ddiddorol gan

Nia Daniel ar y Gymraeg yn yr ysgol. Ceir hanes hefyd sut y gwynebwyd y sialens o ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg gan dair adran o'r ysgol, sef Ffrangege, Hanes a'r Clasuron, ac arolwg o weithgarwch un adran—yr adran Gerdoriaeth. Rhoddir pwyslais ar y defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddsbarth mewn pennod arall. Sonir am weithgarwch y Gymdeithas Rieni a cheir erthygl fer gan un o'r rhieni di Gymraeg. Cloir y cyfan gydag atgofion cyn ddisgybl.

Dylai'r gyfrol hon fod o ddi-ddordeb nid yn unig i'r rhai ohonom sy'n byw yn y cyffiniau yma ac â chysylltiad â Rhydfelen ond hefyd i bawb sy'n ymddiddori ym myd addysg.

Cyhoeddir gan Wasg Gomer.

Pris £1

CÔR BETI WYN

Pwy eto o Gymry'r ddinas sy heb fwynhau gweld a gwrandor Côr Merched bach del hwn ("Côr Beti Wyn" yr enw hoff arno) yn canu ar lwyfannau'r cylch? Bu'r côr yn gyfrwng i roi mwynhad i lu o Gymraesau bach Caerdydd ar hyd y blynyddoedd, ac yn fan cychwyn cyntaf iddyn nhw fwynhau gweithgaredd cymdeithasol y tu allan i furiau capel ac ysgol. Bu eu cyngherddau hefyd yn gyfrwng elw i sawl achos elusengar. Mawr yw diolch y plant hyn, a'u rhieni, a'r achosion da, i ymroddiad cwbl wirfoddol yr arweinydd, Mrs. Beti Wyn Jones o Lysfaen (a Shir Fôn!) (Oes na famau eraill yn awyddus i'w merched fwynhau y profiad o ganu mewn côr? Os oes, beth am holi ynglŷn â 'Chôr Beti Wyn' ar gyfer Medi nesa?)

BABI ARALL

Llongyfarchiadau i Geraint a Margaret Jones (Margaret Williams y gantores) ar enedi-gaeth merch-

Manon Marged Jones

CLYWCH I BEIRDD

Ffoniwch CAERDYDD

45675 i glywed y cerddi hyn.

Mehefin 1

Vaughan Hughes GWYRDD

Mehefin 8

Peter Finch NIGHTBLATS

Mehefin 15

Dafydd Owen GOBAITH

Mehefin 22

Peter Preece DROUGHT

CYMANFA GANU YSGOLION CYMRAEG YR ARDAL

Tro Penarth yw croesawu Cymanfa Ganu ysgolion Cymraeg yr ardal eleni. Fe'i chynhelir yng Nghapel Stanwell Rd., ar Fehefin 27ain. Yr arweinydd fydd Mr. John Charles Davies o Waelod y Garth, sy'n hen law ar drafod cynulleidfa Cymanfa, ar ôl hir fwrw 'i brentisi-aeth yn trin plant ym Methlehem, Gwaelod y Garth. Croeso i rieni droi i mewn i wrando.

YSGOL FEITHRIN YSTUM TAF

Agorwyd y seithfed Ysgol Feithrin Gymraeg yng Nghaerdydd yn ddiweddar yng Ngogledd Llandaf. Fe'i chynhelir ar foreau Llun, Mawrth, Iau a Gwener o 10.15 a.m. hyd 12.00 p.m.

Buwyd yn ffodus i gael Neuadd Eglwys yr Holl Saint i gynnal yr ysgol—neuadd olau, fodern, a digonedd o le i blant os reddeg a chwarae—a hefyd o gael cymorth Mrs. Buddug Roberts o Coryton, Eglwysnewydd, fel athrawes a Mrs. Helen Jones o Manor Way i'w chynorthwyo. A bu'r Parch. Delme Jenkins, ficer yr eglwys, yn gymorth ac yn gefn yn y fenter.

Nifer fach sy yn yr ysgol ar hyn o bryd, ond mae boreau coffi llwyddiannus wedi profi bod nifer fawr o blant os iau yn yr ardal i ddod i'r ysgol yn y dyfodol—rhai o EGLWYSNEWYDD, rhai o OGLEDD LLANDAF a rhai o GABALFA.

Fe groesewir unrhyw offer chwarae sy gan bobl i'w sbario ar gyfer yr ysgol—hei lwc y daw amser "sprin-clinio" a thrysore i'r amlwg!

Felly unrhyw un sy â diddordeb, neu yn gwybod am rywrai a fyddai â diddordeb yn yr ysgol hon, ac yn byw yn ardaloedd Eglwysnewydd, Gogledd Llandaf a Gabalfa, dowch i gysylltiad yn union â Mrs. Ruth Stephens, 42 Church Rd., Eglwysnewydd. Ffôn 63359.

HIWMOR Y DDINAS??

Faint ohonoch chi fu'n gweld 'Cilwch Rhag Olwen' yn Y Barri? Faint ohonoch chi gafodd lond bol o chwerthin am ben Lucy, y jibinc fach rywiol, Seisnigaidd yn y sioe, a ymddangosai yn siglio'i chorun a'i chynffon? Faint oedd yn cael mwy o flas ar ddoniolwch cynnil yr Orsedd a'i deialog o farddoniaeth gaeth? Atebwch yn onest.

Yn ôl W. R. Evans, yr awdur a'r cynhyrchedd dawnus, y ddau beth yma oedd thermometr y criw i fesur natur a gwres y gynulleidfa. A beth oedd y ddyfarniad?

Lucy oedd yn 'mynd lawr' ym Mhontyberem, ond 'Yr Orsedd' i dyrfa Barri a Chaerdydd. Ow, ow uchel-aell!

YCHWANEGWCH y gorau i'ch cartref...

Dewiswch o'r gwla, goleuadau, a'r celfi gorau yng Nghymru.

Discownt sylweddol ar wla a chelfi.

Ni yw'r arbenigwyr

Sleep & Light Centre

10/11 Mill Lane, Caerdydd. Tel. 23539

Ar agor 6 diwrnod yr wythnos 9 a.m. - 5 p.m.
NOSON HWYR - NOS IAU HYD 7.30 p.m.

Cyngor Celfyddydau Cymru

YSGOLORIAETHAU I AWDURON

Gwahoddir ceisiadau gan Gyngor Celfyddydau Cymru oddi wrth awduron sy'n byw yng Nghymru, sydd ag o leiaf un gyfrol o'u gwaith wedi ei chyhoeddi ac sydd am eu rhyddhau o'u hamgylchiadau arferol er mwyn ymgymryd â chynlluniau llenyddol eraill. Ceir manylion pellach ynglŷn â chynllun Ysgoloriaethau y Cyngor oddi wrth yr Adran Lenyddiaeth yn Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd.

ATEB I BROBLEM

Y broblem: twr o blant o gylch y tŷ heb syniad beth i'w wneud. Yr ateb: Stwffiwch nhw i'r car (os oes gennych chi un) ac ewch â nhw ar y daith fer a diddorol hon:

1. Heibio i *Blas Cefn Mabli* (ger Llaneirwg) sy nawr yn ysbyty. Dyma hen blas y Kemeisiaid, ac mae arwyddair Cymraeg y teulu i'w gweld yn y plas, uwchben y lleoedd tân. Bu gwŷr o dras lfor Hael yn byw yma am ganrifoedd, yn noddi beirdd Cymraeg a bywyd Cymraeg yn gyffredinol. Ysgrifennodd W. J. Gruffydd (bardd a fu'n byw yn Rhiwbeina) soned enwog i Gefn Mabli:

"Ychydig o'r hen wylo yn y glaw
Ychydig lwch yn Llanfihangel
draw" (lle claddwyd y teulu).

2. I fynwnt *Llanfihangel y Fedw*. Yma mae bedd Elizabeth Mackie, dynes o'r Alban a briododd Almaenwr o'r enw Carl Hess. Aeth Hess i'r Aifft, lle'r ailbriododd, ac yna i'r Almaen lle ganwyd ei fab Rudolf, ffrind mawr Hitler. Am gyfnod yn ystod y rhyfel, roedd Rudolf yn garcharor yn Llandeilo Bertholau, ger y Fenni. Ond oedd yn beth od bod bedd gwraig gyntaf ei dad ond yn 30 milltir i ffwrdd?

3. Ger *Cas Bach* mae Plas y Dyffryn, lle'r oedd yr aelod seneddol enwog

Tom Ellis yn athro preifat am flwyddyn i blant bach teulu Cory (yr adeiladwy'r llongau enwog) cyn mynd yn wleidydd.

4. Ymlaen i *Lanbedr Gwynllwg*, a chwilio ar wal yr eglwys am y llechen i goffau'r dilyw mawr a fu yn y cylch yn 1606, ac i ddangos y lefel y cododd y dŵr iddo. Mae'r tir yn isel iawn yma, a dyma pam does neb yn cael eu claddu yn y mynwentydd sy wrth ochr eglwys i'r ardal.

5. Sylwi ar y garreg goffa ar Neuadd bentref *Maerwn* (Marshfield) i Ysgrifennydd cyntaf y Castleton Institute—sef yr un Tom Ellis (1884).

6. Gorffen y daith yng *Nghasnewydd*. Yn Eglwys Gadeiriol Gwynlliw mae 12 o glychau, a geiriau Cymraeg ar un, "Ar y symbalau molwch Ef". Yn 1839 bu helynt John Frost a'r Siartiaid a brwydro mawr tu allan i Westy Westgate. Alltudiwyd Frost i Tasmania. Ac yn goron ar y daith, ewch ar y bont-gludo enwog (dim ond un arall o'i bath sydd ym Mhrydain Fawr). Fe garia hon y car a'r teulu i ochr draw'r afon trwy symud ei hun a gadael i chi eistedd yn ôl yn braf i fwynhau'r olygfa fwdlyd! A bydd pob plentyn yn ei seithfed nen!

'TRENAU BACH CYMRU'

Fe fydd llyfr Saesneg yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir "Great Little Trains of Wales" a'r awdur yw Bob Richards, 232 Pantbach Rd., Rhiwbeina. Mae'n sgrifennwr diwyd ac wedi golygu nifer o gylchgronau. Mae Mr. Richards hefyd yn olygydd y 'Wenallt', papur newydd poblogaidd Rhiwbeina. Gobeithir trosi'r llyfr i'r Gymraeg cyn bo hir. Y cyhoeddwy'r yw Swansea Educational Services Cyf.

SYMUD TY

Symudodd Gareth ac Ann Evans a'r teulu o Groes Culverhouse i'r Tylgoed. Cofrestrydd yn Ysgol Gyfun Rhydfelen yw Gareth.

COLEG CYNCOED

Y Gymdeithas Gymraeg

Ga i ddweud i ddechrau fod y Gymdeithas wedi mwynhau tymor llwyddiannus dros ben, mor belled, ac am hyn rydym yn ddyledus iawn i'n Llywydd, Mr. W. J. Jones, sy wedi bod mor barod i'n cynorthwyo bob amser.

Ymhlith ein cyfarfodydd mor belled, bu twmpathau dawns (yng nghwmni Clynog Davies o Fryn-aman), nosweithiau, yng nghwmni Alun a Rhiannon Evans, Miss Olwen Rees, B.B.C., Lowri Tomos—trefnydd yr Urdd yng Ngorllewin Morgannwg a Mynwy, darlithoedd amrywiol gan Mr. W. J. Jones, a Mr. H. D. Roberts, Helfa Drysor—ar droed, Trwst Brain gyda phanel o staff, noson Penigamp' a noson o gystadlaethau amrywiol rhwng timau o staff a myfyrwyr, cystadleuaeth Noson Lawen rhwng Gogledd a De, Disgachlec! a thrip i'r baddonau yn Guildford Crescent. Mae adran ddrama'r gymdeithas wedi bod yn eitha prysur hefyd.

Gobeithio y bydd gweddill ein cyfarfodydd y tymor hwn yr un mor llwyddiannus â'r rhai sy wedi bod eisoes. Cofiwch fod croeso cynnes i bob un ohonoch chi'r darllenwyr droi i mewn atom unrhyw nos lau, am 8.15.

Sarah Morris (Ysgrifennydd)

YDYCH CHI'N COFIO?

Mai dyma'r adeg godidocaf o'r flwyddyn i ymweld â Pharc Cefn Onn, y rhododendron i gyd yn eu blodau, a phersawr azalea yn llenwi'r lle. Man campus am bicnic neu am dro bach gyda'r nos.

Fe ellwch gael llyfryn bach yn rhoi holl hanes y parc, naill ai yno, neu trwy alw yn Swyddfeydd Parc y Rhath, Ffordd Wedall (ger Parc y Rhath). Ac a wyddech chi fod gan yr un swyddfa restr o bamffledi y gellir eu cael am ddim neu'r nesa peth i ddim, yn rhoi hanes y Wennallt a holl wahanol rodffeydd y ddinas. 'Take a Walk in the Park' yw enw'r gyfres (Canton i Landaf, Rhymni, Ffynnon Daf etc.); ac fe nodir popeth diddorol ar y ffordd, o greadigaethau dyn a byd natur. Campus i athrawon, arweinwyr clybiau a theuluoedd sy'n hoffi cerdded! Manteisiwch ar gynnig Adran Barciau Caerdydd.

AWYDD TRIP I WERDDON?

"Cerddoriaeth y gwledydd Celt-aidd"—dyma fydd thema'r Gyngres Geltaidd a gynhelir yn Iwerddon, yn Blessington, Swydd Wicklow, yr haf hwn.

Traddodir darlithiau gan gynrychiolwyr o'r chwe gwlad—Cymru, Iwerddon, yr Alban, Llydaw, Cernyw ac Ynys Manaw. Fe fydd 'na hefyd ambell daith a chyngredd.

Cynhelir y gyngres o Awst 13–18 ac os oes rhywun â diddordeb am fanylion pellach, anfoner amlen wedi'i stampio a'i chyfeirio at yr ysgrifennydd Cymraeg:—

Br. Hywel D. Roberts,
Gwynant,
31 Ffordd Cefn Coed,
Cyncoed,
Caerdydd.

RAFFL GWERTH EI HENNILL!

Mae Cangen Radyr o Blaid Cymru yn ddyledus iawn i Jill Schoenmann, y cynllunydd gwisgoedd gwreiddiol o Benarth, am gyflwyno sioe ffasiwn hyfryd i gynulleidfa fawr yn Neuadd y Pentre, Pentrepoeth (Morgans-town) nos Wener, Mai 11eg. Ac yn arbennig maen nhw am ddiolch iddi am wneud a rhoi tair gwobr raffl yn ogystal, yn enwedig am y ddol-maint-plentyn yn gwisgo dillad brethyn fyddai'n ffitio geneth fach 5 oed. Am wobr werth ei chael!

MWY O FABIS

Pan glywodd athrawon Ysgol Gynradd Pen y Bryn am gystadleuaeth 'Y Babi Trymaf' gyda gwobr o stoc blwyddyn o binnau a 3 galwyn o ddwr greip aeth dau o'r dynion ati o ddirif i gystadlu.

Daeth RHIAN ELERI i'r byd ar 7fed o Fai yn pwyso 8 bwys 15 owns. Llongyfarchiadau i leuan a Heulwen Jones, Caerffili am y gampwaith! Ond arhoswch, cyn bod leuan wedi cael amser i newid ei glwt cyntaf roedd Jeff a Doreen Northcote wedi ychwanegu 7 bwys at y record gyda dyfodiad eu mab, STUART BLAIR. Dyma'r tro cyntaf i'r ddau gystadlu, ond dywedodd y ddau nad oeddynt yn barod i roi ail-gynnig ar y record—am y tro, beth bynnag.

ADRAN YR URDD GWAELOD Y GARTH

Oes 'na Gymry yn ardaloedd Radyr, Pentyrch a Gwaelod-y-garth sy heb glywed eto i'r Adran newydd hon gael ei sefydlu eleni? Mae'n mynd yn llwyddiannus dan ofal yr arweinydd Rhys Daniel, Athro Celf Ysgol Gyfun Rhydfelen. Y man cyfarfod—festri Bethlehem, Gwaelod-y-garth, bob nos Fercher am 6.30 p.m. Dewch, blant Cymraeg, yn llu—fe gewch ddigon o sbort a sbri, ac o dynnu lluniau!

Beth yw digwyddiadau'r wythnos?

ffoniwch **Caerdydd**

397676

YDYCH CHI'N EU HARFER—BOB TRO

TREDELERCH—Rumney
LLANEIRWG—St. Mellon's
CAS BACH—Castleton
MAERUN—Marshfield
LLANFIHANGELY FEDW—
Michaelston y Fedw
LLANBEDR GWYNLLWG—
Pesterston Wentloog
LLANSANFFRAID GWYN-
LLWG—St. Brides' Went-
loog

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

Amgueddfa Werin Cymru

SAIN FFAGAN

Teleffon Caerdydd 561357-8

Dowch i weld: Y Castell a'i Erddi, Ysgubor y Strytlydan, Ffatri Wlân Esgair Moel, Capel Pen-rhiw, Ffermdai Aber-nodwydd, Cilwent, Kennixton, Hendre 'rywydd Uchaf, Bwthyn Llainfadyn, Y Tanerdy, y Talwrn Ymladd Ceiliogod, y Tollborth a'r Efail. Dylech hefyd weld yr Oriel Ddiwylliant Materol lle dangosir agweddau ar fywyd a chymdeithas yng Nghymru. Gwelwch hefyd y Crefftwy'r wrth eu gwaith ac os ydych yn cymryd diddordeb mewn traddodiadau llafar, canu gwerin neu dafodieithoedd Cymru, holwch am yr Adran Draddodiadau Llafar a Thafodieithoedd.

Gellwch gael cinio a the yn yr Ystafell Fwyta ond dylid gwneud trefniadau ymlaen llaw ar gyfer partion niferus. Eich BWS o GAERDYDD yw rhif 32 o'r ORSAF FYSIAU GYFFREDINOL.

- * Mynediad: Pobl mewn oed 10c (20c Gorrffennaf ac Awst)
Pensiynwyr a phlant (o dan 16) 5c
- Dosbarthiadau ysgol yn rhad pan drefnir ymlaen llaw
- * Maes Parcio: Bysiau 15c Ceir Preifat 10c Beiciau Modur 5c
- * Dyddiau'r wythnos: Ebrill-Medi—10 a.m.—7 p.m.
Hydref-Mawrth—10 a.m.—5 p.m.
- * Suliau: Agorir am 2.30 p.m.
- * Llawlyfrau (Cymraeg neu Saesneg) ar gael am 10c yr un (16c trwy'r post)

Caeir dydd cyn y Nadolig, dydd Nadolig, trannoeth y Nadolig a Dydd Calan.

"CYW A FEGIR..."

"Cyw a fegir yn uffern yn uffern y myn fod" medd rhyw air.

Dywedir mai'r twll hwnnw yn y llawr ger y lle tân yn yr hen dai ydi'r 'uffern' y cyfeirir ato, ac mai tuedd y cyw iâr gwan (a fyddai'n cael mwynhau cynhesrwydd y twll i adgyfnerthu) oedd dychwelyd i'r diddosrwydd pob cyfle a ga'i.

Tuedd felly sydd ynof innau. Nid na fyddaf yn crwydro. Yn wir gwnaf hynny'n aml. Af i Gaerdydd yn gyson. Ymweliadau byrion o ddiwrnod neu ddau a fyddant ran amiaf, ond o dro i dro ânt yn ysbeidiau o fythefnos neu ddeufis hyd yn oed. Cofiaf yn dda y pythefnos lawn gyntaf i mi ei threulio yn y brifddinas.

Canol haf heulog 1969 ydoedd, a gwaith yn fy nghadw'n brysur drwy'r dydd a'r min nos am yr wythnos gyntaf. Erbyn yr ail wythnos (a geiriau rhyw ddrama neu'i gilydd a ddysgwn ar y pryd, wedi dechrau gwaelodi a glynu yn y cof) daeth rhyw anniddigrwydd i gyrnewian o'r tu mewn imi. Ni wna'r gadair freichiau esmwythaf yn y gwesty fy nadflino, na'r fatres 'Rest Easy' foethusaf fy nadluddedu chwaith. 'Doeddwn i ddim yn sicr iawn bellach na wna'i Pencadlys Hodge ddymchwel ar fy mhen, a mynnwn (er fy mod yn ddyd byr) ostwng fy mhen wrth fynd tan y bont i gyfeiriad Queen Street. A Queen Street ei hun? Roedd arogleuon petrol llosg a pheiriannau treuliedig yn gwneud imi feddwl fod ffortiwn arall yn aros Elizabeth Arden, pe digwyddai ffroeni arogleuon cytiau moch.

Beth a wnawn? Roedd wythnos gyfan arall i'w hwynebu. Fe ddaeth ymwarded. Mynnodd nifer o'm cyd-letywyr yn y gwesty gael tipyn o hwyl, a heb yn wybod i mi, trefnwyd i wraig y gwesty fy ngalw am frechwast awr ynghynt na'r amser arferol. Felly, ar yr awr benodedig dyna lais Mrs. Cleaver yn dod drwy'r corn siarad yng nghornel yr ystafell.

'Bore da Guto. Mae hi'n awr yn saith o'r gloch.'

Sylweddolais beth oedd wedi digwydd, ond gan na allwn ateb yn ôl, yn glywadwy, fe godais.

TONTEG

Cynhaliwyd ffair sborion lwyddianus yn ddiweddar yn Neuadd y Pentref, Church Village. Fe'i trefnwyd gan ferched Tonteg a'r cylch. Aeth yr elw i Blaid Cymru.

Mae Penri Jones ac eraill yn mynd i gychwyn cylchoedd trafod llenyddol yn y cylch cyn hir. Cynhelir y cyfarfodydd unwaith y mis ac fe wahoddir llenorion amlwg i siarad yno.

Bu Geraint Huws a'i wraig Catrin ar wyliau yn Awstria yn ddiweddar. Treuliodd Geraint ei wyliau yn meistrol'r grefft o sgio ar fynyddoedd y wlad. Cafodd dystysgrif yn ddiweddarach am wneud mor dda. Llongyfarchiadau iddo. Mae'n gobeithio cyflwyno sgysie byrion ar dechneg sgio i gymdeithasau lleol yn y dyfodol agos.

Roedd yn fore heulog braf, ac ar ôl y brecwast cynnar, penderfynais fyned allan, a cherdded ychydig latheni ar hyd y stryd. Doedd fawr o bleser chwaith, mewn cerdded palmant llwyd undonnog, ond dal i droedio wnes i, ac yn annisgwyl hollol deuthum i dir glas Roath Park!

Roedd y digwyddiad mor annisgwyl fel na allwn am eiliad gredu'r peth. Prinnach roi fy nhraed arno! Yn araf fel profi cledwch rhew cyn sglefrio, rhoddais flaen fy nhraed yn y glesni esmwyth, a'r eiliad honno saethodd y wefr hyfrytaf trwy feilwng a chlun, nes treiddio trwy'r corff i gyd. Peidiodd yr anniddigrwydd, diflannodd y lludedd.

Cerddais yn ôl ac ymlaen yn y Parc am awr gron gyfa'. Deuthum o hyd i afon fechan a choed. Drwy'r brigau gwelwn bâr o hwyaid llwydion yn dowcio'u pennau ar yr ail i'r dwr, a degau o adar bach springar yn sponcio o frigyn i frigyn yn y coed cyfagos.

Ni fu arnaf ofn bod yng Nghaerdydd ar ôl hynny, a phan ddaw pyliau o golli'r gymdeithas sydd yn Sir Gaernarfon, gwn bellach fod Sain Ffagan yng nghwr arall y ddinas!

Mae croesi trothwy Llainfadyn fel mynd adref i mi. Medraf ffroeni arogleuon crasu bara'r dyddiau gynt a thincial gweill dur wrth wau hosan fel miwsig i glust flinedig. Yn wir mae rhywun neu rywrai ynghlwm wrth bob celficyn sydd yno, a choeliwch neu beidio maent yn gwmmi diddan.

GUTO ROBERTS

PRIODAS

Yng Nghapel y Crwys, Caerdydd, ar ddydd Sadwrn, Mai 5, priodwyd ANN CLEAVER a ROGER MARTIN. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion Lodwig Jones, Maldwyn Griffiths ac Emrys Cleaver. Yr Organydd oedd Arnold Lewis a'r Delynores, Frances Môn Jones. Yn ystod y gwasanaeth canwyd penillion cywydd, o waith y Prifardd R. Bryn Williams, gan Frances Môn Jones i gyfeiliant y delyn.



Na nid Indian Cymraeg ond DAFYDD HAVARD yn portredu pensaer sy'n gor-addoli ei waith ei hun yn rhaglen HTV Cymru "Ystlumod", rhaglen yn seiliedig ar forddoniaeth Rhydwen Williams. Gwelir y rhaglen ar HTV Cymru ar ddydd Mawrth, 12fed Mehefin. Cynhyrwydd Euryd Ogwen Williams.

PONTYPRIDD BRO'R EISTEDDFOD

Yn cydynd ag ymweliad Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd â Phontypridd ar Fai'r 31ain 1973, mae Senedd yr Ifanc yn Nwyrain Morgannwg a Mynwy yn cyhoeddi llyfr ar Bontypridd a'r cylch: *Pontypridd, Bro'r Eisteddfod*.

Yn hytrach na llunio cyfrol ysgolheigaidd, ceisiwyd cyffroi'r darlennydd, a'i ysgogi i gloddio mewn hanes lleol. Teimla'r Senedd fod cyfle gwych i blant Cymru ddysgu am hanes eu gwlad wrth deithio i Eisteddfodau Cenedlaethol yr Urdd ar hyd a lled y wlad. Y gobaith yw y bydd Seneddau eraill Cymru yn dilyn eu hesiampl.

Golygydd y llyfryn yw John Jenkins, sydd hefyd yn olygydd cylchgrawn chwarterol y Senedd—*Tanwydd*. Mae'n athro ysgol yn y Beddau, ger Pontypridd.

Cymdeithas Lenyddol Bro Morgannwg

Ar nos Sadwrn, Mai 19, fe gynhaliwyd y cwrdd cyntaf o Gymdeithas Lenyddol Bro Morgannwg. Lansio'r llong newydd ym mharlwr ffrynt ffermdy Gregory yn Nhrefflemin, ac o fewn deugainllath i'r lle y bu bwthyn a chartref lolo Morgannwg. Noson gartrefol oedd hi—llond ystafell o wrandawyr, llond ystafell o awyrgylch hefyd, a Gwynn Jones, Miss Ann Rosser a chwmmi o fyfyrwyr o Goleg Addysg Caerdydd yn cyflwyno rhaglen ar y breuddwydiwr mawr—lolo Morgannwg.

Set gyflawn o Eiriadur Prifysgol Cymru—Rhanau 1-25 heb ei rhwymo gyda chlawr a thudalen deitl—£6 Ffoniwch—612971

Prifysgol Cymru

GWASG PRIFYSGOL CYMRU

Merthyr House, James Street, Caerdydd CF1 6EU

Mae angen merch ifanc yng Ngwasg Prifysgol Cymru i deipio ac i wneud gwaith swyddfa. Byddai profiad blaenorol o fantais ond nid yn angenrheidiol.

Cyflog o fewn y raddfa £522—£987 y flwyddyn.

Dylid anfon ceisiadau i'r Cofrestrydd, Cofrestrfa'r Brifysgol, Parc Cathays, Caerdydd CF1 3NS yn rhoi manylion ynglŷn ag oedran, addysg a phrofiad ac yn rhoi enw dau berson y gellir ymgynghori a hwy erbyn Mehefin 20 fed 1973.

Park Hotel

PARK HOTEL
PARK PLACE
CAERDYDD
CF1 3UD
☎ 23471

- ★ Un o brif westai canol dinas Caerdydd.
- ★ Cyfleusterau ardderchog ar gyfer cynadleddau, prydiau bwyd a chyfarfodydd busnes ar gyfer 30 neu 400.
- ★ 97 o ystafelloedd gwlaio cyfforddus nifer gyda stafell ymolchi preifat.
- ★ Ystafell grill a phrif ystafell fwyd yn cynnig dewis o fwydydd da.
- ★ Cyfleusterau bar.



Pwyllgor Sir Dwyrain Morgannwg Merched y Wawr

MIRI MAI MERCHED Y WAWR!

Cafodd canghennau Dwyrain Morgannwg o Ferched y Wawr noson arbennig o hapus yn Neuadd Goffa'r Barri ar Fai 15fed. Aelodau'r Barri oedd yn estyn y croeso eleni, a hynny trwy swper bys a bawd blasus ac amrywiol eitemau ac arddangosfeydd. Fe hir gofir y darluniau a'r pypedau gwreiddiol, a'r brodwaith arbennig o gywrair. Diolchodd y llywydd, Mrs. Rachel Williams, i Mrs. Llywela Evans am gwblhau'r trefniadau campus, ac wrth gyflwyno'r llywydd newydd, Mrs. Llio Loveluck o'r Bontfaen, dywedodd pa mor galonogol oedd hi i weld cant a hanner o Gymraesau o Ddwyrain Morgannwg yn medru dod at ei gilydd fel hyn i fwynhau sgwrs a chyfeillach yn Gymraeg. O ystyried mai dim ond 70 o Gymry oedd yn y Barri yn 1884, roedd y newid hwn yn ffaith gymdeithasol hynod.

Etholwyd Mrs. Myra Jenkins, Caerdydd, yn Is-Lywydd Sirol; Mrs. Mair Jones, Caerdydd, yn Ysgrifennydd Sirol; a Mrs. Minwel Tibbot, Pentyrch, yn Drysoryddes.



GWENT CAR HIRE

Ceir, Faniau, Tryciau, Bysiau Bychain
Am awr, am ddiwrnod, am wythnos

Caerdydd Tel. 43151/2
Penybont Tel. 2719
Abertawe Tel. 53169
Aberdâr Tel. 2964

Casnewydd Tel. 55004
Pontypridd Tel. 402410
Barri Tel. 77030
Ystrad Mynach Tel. 812112

THE WELSH LANGUAGE TODAY

Golygydd
MEIC STEPHENS

Ysgrifau ar yr iaith mewn crefydd, addysg, y gyfraith llywodraeth, gwleidyddiaeth, newyddiaduriaeth, llenyddiaeth, darlledu, gyda arolwg o hanes y Gymraeg, ei chyflwr presennol, Cymdeithas yr Iaith, y mudiad Cymraeg heddiw ac yfory, gan Glanville Price, R. Brinley Jones, Roland Mathias, R. Tudor Jones, Jac L. Williams, Chris Rees, Robyn Lewis, Ioan Bowen Rees, Alwyn D. Rees, Tecwyn Lloyd, R. Gerallt Jones, Morris Jones, Cynog Davies, Dafydd Glyn Jones a Ned Thomas.

Gwasg Gomer Pris £3.25

Dyddiad cyhoeddi Gorffennaf 5ed

Mynnwch eich copi o'r llyfr pwysig hwn, a llyfrau Cymraeg a Saesneg eraill oddi wrth—

H. J. LEAR Ltd

ROYAL ARCADE · CAERDYDD

Tŷ JEROBOAM

gan Eifion Glyn

Hogyn o Benygroes, Arfon yw Eifion Glyn—a'r ardal honno wedi mynd i'w waed o. Ar hyn o bryd ynghanol y pwl olaf o arholiadau yng Ngholeg Addysg Cyncoed, Caerdydd, cyn troi i'r byd mawr. Mae'n hoffi llenyddia yn fawr iawn—ac yn hoff o fyd y ddrama hefyd. Ond ei gwalifficashion pennaf—fo enillodd y Goron yn Eisteddfod yr Urdd ym Mhontypridd yr wythnos diwethaf. Felly mae hon yn sgwip o stori.

"Ti'm yn gwobod 'im byd amdani. Im yn gwobod dy eni". Geiriau cyfarwydd? Roeddynt mor gyfarwydd i mi ag oedd eillio i nhad (ac mae dad yn dywyll a barfas yn tyfu fel sofr ar ei wyneb). Hoff bregeth fy rhieini. Os na chlywais i'r geiriau yna fil o weithiau, chlywais i ddim ohonynt unwaith. Ond ar ôl byw mewn fflat yng Nghaerdydd am ddwy flynedd a chan fod gennyf wyneb pres, dwi'n credu y gallaf droi'n ôl atynt a dweud, "Dyda chi'm yn gwobod dim amdani".

Bywyd o eithafion fu'm i fel myfyriwr fflat. Dogni hallt ar fwyd. Boddi'n chwil mewn cwrw. Pwysu ar raw fy ngwaith, fel gweithiwr cyngor, am wythnos. Gweithio fel morgrugyn gwallgof yr wythnos ddilynol. Yn y dechrau roedd y pedwar ohonom oedd yn y fflat yn frwdrydig a threfnus iawn. Bwyd yn ei brydiau. Glanhau amserol, penodedig. Ond dirywio fu'r hanes ar ol y mis cyntaf. Rwy'n cofio'n iawn y cinio Sul cyntaf a wnaethom. Y fi, fel yr oeddwn wirionaf, yn wirfoddol yn dweud y buaswn yn coginio'r Sul hwnnw. Penderfynu ar iâr, a phrynu iâr wedi rhewi mewn siop-farchnad yn yr Albany fore Sadwrn. Gadael i honno ddadmer dros nos. Codi'n gynnar fore Sul (hynny yw tua'r un-arddeg yma) lapio'r iâr mewn ffoil gloyw cyn ei rhoi mewn tun a'i stwffio i'r popty. Mynd ati'n ddigon deheuig i bricio'r tatws, yna'r rwdan a'r moron. Rhoi'r tatws a'r llysiâu ar y tan. "Pinsh o halan go dda'n y tatws", geiriau mam fel cnul yn fy nghlustiau. Mi ddechreuais i amau fod yna ryw beth o'i le ar yr iâr pan dynnais hi allan o'r popty y tro cyntaf i'w harchwilio. Roedd yna swigod anferth, y pethau debycaf welodd dyn i'r pla du, wedi codi'n feiddgar ar y ddwy ochr iddi. Ac i droi stumog rhywun yn fwy yr oeddynt yn llawn o ddwr budr. Welais i erioed olwg mwy chwdlyd ar ddim nag a oedd ar y saim yng ngwaelod y tun. Prun bynnag, yn ôl i'r gwres y cafodd fynd a thyllau'r fforcio wedi gwneud byd o les iddi.

Roeddwn yn teimlo'n llawer mwy cysurus ymhen yr awr—yr iâr yn edrych yn iachus yn ei chrawen o groen brown, y tatws a'r llysiâu'n ffrwtian yn reit hapus yn y sosbenni.

Gwneud grefi

Ac mi es ati'n llawn hyder at y broses o wneud grefi. Mynd dros gyfarwyddiadau mam yn fy mhen, "... dipyn bach o saim y cig, cymysgu 'chydig o ddwr poeth efo fo adio dwr y tatws, cymysgu blawd efo dwr mewn cwpan a'i adio fo at y grefi i'w dwchu o—gwneud yn siwr na does 'na ddim lymphia yno fo—a throi'r grefi'n gyson". Llewys wedi'u torchi a'r geiriau fel tiwn gron yn fy mhen, mentro i wneud y trwyth. Saim o'r tun i'r sosben, dwr poeth, troi, ychwanegu dwr o'r tatws—y tatws wedi rhedeg a'r dwr fel pasd blawd—cwpan, blawd, dwr—cymysgu—"dim lymphia"—ychwanegu at y grefi a throi cyson—dau oxo i gael blas. Dwn i ddim beth gythraul wnes i'n anghywir, ond ar fy ngwir, welais i erioed y ffasiwn gowdal troeddig yn fy mywyd. Teg fyddai ei gyffelybu i lyn wedi rhewi yn y gaeaf—y llyn—haen o rew ar yr wyneb a'r dwr oddi tano, y grefi—trwch o saim ar yr wyneb a'r dwr oddi tano. Dyna ginio dydd Sul lawr y draen. Erbyn sylweddoli roedd yna gwddyn bach y tu mewn i'r iâr yn cynnwys y corn gwddw a darnau eraill o'i chrombil—roedd hwnnw wedi toddi a gwneud stomp iawn. Wel sut yr oeddwn i fod wybod? Ffa a thost oedd cinio'r dydd Sul canlynol.



Da iawn Hogia' Chwaraeodd tim o'r clwb yng nghystadleuaeth Pel-droed y Pasg yn Llangefni, Sir Fôn eleni eto, ac am yr ail dro cyrhaeddwyd y rownd derfynol.

Rownd 1 yn erbyn Llanbedrgeoch Atoms. Dim llawer o drafferth yma, ac enillwyd y gêm o 4 gic gornel i 1.

Rownd 2 yn erbyn Hole in the Wall Gang. Roedd chwarae'r tim yma ychydig yn well na'r enw a fabwysiadwyd ganddynt, ac anodd oedd sgorio. Ennill ar gorneli fu, ein hanes.

Rownd 3 yn erbyn Meibion y Dafarn (myfyriwr o Goleg y Brifysgol Aberystwyth) Dyma'r gêm galetaf o'r tair, ond roedd y bechgyn yn dechrau setlo erbyn hyn ac yn chwarae'n synhwyrol gyda'r amddiffynfa'n gadarn iawn. Bu'n rhaid wrth gic gosb i ddyfarnu'r enillwyr ac unwaith eto Clwb Cymric aeth a hi, ar ôl i Mêt, gynt o Fethesda

Athletig cyn iddo gael y drop am fod yn rhy dew, sgorio.

Rownd 4 Rhoi crasfa i Glwb leuenctid Llangefni.

Y Rownd Derfynol yn erbyn 'The Blues'

Er inni agor y sgorio, a chwarae'n galed iawn colli o ddwy gôl i un wnaethom, a chanlyniad digon teg oedd hynny. Dylai dinasyddion Caerdydd fod yn falch iawn o'r ymdrech galed wnaeth yr hogia' ar eu rhan, wedi'r cyfan nid yn aml y cysylltir Caerdydd â buddugoliaeth ar y maes pêldroed. Aelodau'r tim oedd—Alan Huws, John Roberts, Ian Defis, (yr holl ffordd o Gynhadledd U.C.A.C.) Ken Williams, Stan Jones, Y brodyr Emrys a Tiwdor Davies, Trefor Huws, Bryn Jones, Mêt Jones, a Gari B. Jones. Yn eisiau Medal i Dafydd Mona a benderfynnodd ar y funud olaf chwarae i dim arall—aeth allan yn y rownd gyntaf. Pwr dab.